19EG O RAGFYR

# Ysgol Treganna

## Cylchlythyr Wythnosol



## Tymor yma

Ar ddiwedd tymor arall, llawn bwrlwm a phrysurdeb, hoffem ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bob un o deulu Treganna. Mae'r tymor yma, unwaith yn rhagor, wedi bod yn llawn o ymweliadau, o wibdeithiau ac o gystadlaethau sydd wedi cynnig amrediad o brofiadau gwerthfawr i bob plentyn yn Ysgol Treganna. Yn ogystal, cawsom ymweliad Estyn ym mis Tachwedd ac edrychwn ymlaen at rannu'r adroddiad gyda chi ym mis Ionawr. Mae teulu Treganna yn deulu arbennig iawn ac rydym am ddiolch i'r staff am eu gwaith caled yn ystod y tymor, i'r llywodraethwyr am eu cymorth ac i chi fel rheini am eich cefnogaeth barhaus. Ond yn bennaf, i'r disgyblion gwych sydd gennym yn yr ysgol, diolch iddynt am eu cwrteisi, eu caredigrwydd a'u brwdfrydedd heintus! Edrychwn ymlaen at groesawu pawb nôl i'r ysgol ar ddydd Mawrth, y 6ed o Ionawr, am dymor cyffrous arall. Mwynhewch y gwyliau ac ymlaciwch!

## Sioeau Nadolig Math

Unwaith eto, wythnos yma, rydym wedi mwynhau gwledd o ganu, dawnsio ac actio wrth i ddisgyblion ieuengaf yr ysgol, dosbarth Math, berfformio'u sioe Nadolig. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu tuag at y sioe ac i'r staff am eu gwaith caled yn paratoi'r disgyblion.

## Calendr

**Diwrnod HMS (Dim ysgol i'r disgyblion) 5.1.26**

**Diwrnod cyntaf nôl i bawb 6.1.26**

**Canlyniad Carol yr Ŵyl Prynhawn Da 2.00-3.00yp 24.12.25**

# DIOLCH

Hoffem ddiolch yn fawr i'r holl deuluoedd a ffrindiau Ysgol Treganna am eich cefnogaeth anhygoel i weithgareddau Nadolig y GRhA. O brynu cardiau ac addurniadau Nadolig a gynlluniwyd gan y plant, i fynychu'r Ffair Nadolig, sesiwn gwneud torchau Nadolig, a phrynu tocynnau'r raffl fawr - mae eich cyfraniad wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol. Mae'r pedwar digwyddiad hyn yn unig wedi codi swm anhygoel o **£4,657**, ac ers Medi mae cyfanswm holl weithgareddau'r GRhA wedi cyrraedd **£8,022**!

Hoffem hefyd ddweud diolch yn fawr iawn i staff y gegin, a gododd swm arbennig o **£196** yn y ffair drwy werthu cyri, gan eu galluogi i brynu cracers ac addurniadau bwrdd ar gyfer cinio Nadolig yr ysgol.

Mae rhywfaint o'r arian hwn eisoes wedi mynd tuag at offer chwaraeon, ardaloedd awyr agored y dosbarthiadau, offer dysgu i bob blwyddyn, a siwmperi blwyddyn 6, tra bydd rhan fawr yn mynd tuag at uwchraddio ardaloedd chwarae iard y plant yn ystod tymor cyntaf 2026.

Rydym yn ddiolchgar iawn am eich haelioni, eich amser, a'ch ysbryd Nadoligaidd - mae'n helpu i wneud Ysgol Treganna'n le arbennig i'r holl blant.

FFRINDIAU YSGOL TREGANNA

Nadolig Llawen i chi gyd.
Criw y GRha



## Patrwm Iaith wythnos gyntaf mis Ionawr

**Dyma batrwm iaith yr wythnos**

Ydy hi'n (tywydd)?

Ydy mae hi'n …

Nac ydy, mae hi'n …

**Her**

Prynhawn yma, rydw i'n meddwl bod hi'n mynd…

Mae'n debygol y bydd hi'n …

**Testun trafod yr wythnos**

Pe bawn i'n anweledig…

**Cân yr wythnos**

Rhys Gwynfor - Lwcus

**Idiom yr wythnos**

Oriau mân y bore